



Y RHWYDWAITH YMCHWIL
IECHYD MEWN YSGOLION

SCHOOL HEALTH
RESEARCH NETWORK

Canlyniadau Iechyd Rhywiol Pobl Ifanc dan Ofal y Wladwriaeth

Y Rhwydwaith Iechyd Mewn Ysgolion Briff Ymchwil, Ebrill 2019

Mae gan Gymru gyfraddau cymharol uchel o blant a phobl ifanc dan ofal y wladwriaeth; mae hyn yn gosod mwy o alw ar ddarparu gwasanaethau cyngor a chymorth yr awdurdod lleol ar faterion sy'n ymwneud â rhywioldeb ac iechyd rhywiol. Heb unrhyw ystadegau sydd eisoes yn bodoli am iechyd rhywiol ymhlith pobl â phrofiad o fod dan ofal yng Nghymru, sut gellir pennu a deall eu canlyniadau iechyd rhywiol?

Yr hyn rydym ni eisoes yn ei wybod...

Caiff pobl ifanc dan ofal y wladwriaeth eu cydnabod fel poblogaeth sy'n agored i ganlyniadau iechyd gwael. Mae astudiaethau blaenorol wedi canfod fod pobl ifanc â phrofiad o fod dan ofal yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn ymddygiadau rhywiol peryglus, gan gynnwys gweithgarwch rhywiol yn ifancach, beichiogrwydd cynnar a thro ar ôl tro, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a rhyw drafodaethol.

Roedd y risg o ganlyniadau gwael yn parhau pan oeddent yn rhieni, gyda rhieni â phrofiad o fod dan ofal yn fwy tebygol o ddiodef ymyriad gorfodol y wladwriaeth.



Yr hyn a wnaethom...

- Daethom â data o ddwy astudiaeth at ei gilydd. Daeth data meintiol o arolwg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2015, a ddefnyddiwyd i ymchwilio i ymddygiadau a chanlyniadau iechyd rhywiol pobl ifanc o dan ofal maeth o'i gymharu â'r rheiny sy'n byw mewn cartrefi preifat. Rhoddwyd y canlyniadau mewn cyd-destun data meintiol o gyfweiliadau â gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol.
- Roedd data'r arolwg yn cynnwys gwybodaeth am drefniadau byw presennol, ymddygiadau iechyd rhywiol a nodweddion cymdeithasol-demograffig.
- Tynnwyd y data ansoddol o gyfweiliadau rhannol-strwythurol gyda 27 o gynrychiolwyr staff o wasanaethau gadael gofal o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol ledled Cymru. Archwiliodd y cyfweiliadau brofiadau gweithwyr proffesiynol ac ymatebion lleol i feichiogrwydd a bod yn rhieni pobl ifanc o dan, ac sy'n gadael, gofal y wladwriaeth.

Yn gryno

- Mae canlyniadau iechyd rhywiol pobl ifanc dan ofal y wladwriaeth yng Nghymru yn waeth na'r rheiny nad ydynt mewn gofal.
- Mae pobl ifanc mewn gofal maeth llawer yn fwy tebygol o roi gwybod eu bod nhw wedi cael cyfathrach rywiol, eu bod nhw wedi cael cyfathrach rywiol am y tro cyntaf yn ifanc, a'u bod nhw heb ddefnyddio condom yn ystod eu cyfathrach rywiol ddiwethaf.
- Mae gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol yn cynnig amrywiaeth gynhwysfawr o gymorth i bobl ifanc mewn gofal maeth, ond efallai eu bod nhw'n teimlo'n ansicr am gefnogi iechyd rhywiol pobl ifanc sy'n iau na'r oedran cydsynio ac addysgu sgiliau perthynas a hunan-barch.



@SHRNWales



SHRN@cardiff.ac.uk



SHRN.org.uk

Yr hyn a ganfuom....

Iechyd rhywiol pobl ifanc mewn gofal maeth

- Roedd pobl ifanc mewn gofal maeth llawer yn fwy tebygol o roi gwybod eu bod nhw erioed wedi cael cyfathrach rywiol ac wedi cael cyfathrach rywiol am y tro cyntaf yn ifanc.
- Roedd pobl ifanc mewn gofal maeth dair gwaith yn fwy tebygol o roi gwybod eu bod nhw heb ddefnyddio condom yn ystod eu cyfathrach rywiol ddiwethaf, a'u bod nhw pum gwaith yn fwy tebygol o beidio â rhoi gwybod eu bod nhw'n cymryd pilsen atal cenhedlu, o'i gymharu â'r rheiny sydd â math gwahanol o drefniant byw.
- Fe wnaeth cyfran uwch o bobl ifanc mewn gofal maeth roi gwybod eu bod nhw wedi anfon delwedd rywiol eglur ohonynt eu hunain neu fod un wedi cael ei hanfon heb eu caniatâd.

Mewnwelediadau gan weithwyr proffesiynol

- Roedd y gweithwyr proffesiynol yn hyderus bod gan y system ofal y sgiliau a'r profiad i amlygu ac ymateb

i anghenion pobl ifanc mewn gofal maeth, ond caiff ei gyfaddawdu gan ddiffyg adnoddau.

- Rhannwyd y cyfrifoldeb dros gefnogi iechyd rhywiol pobl ifanc ymhlith gweithwyr proffesiynol, ond nid oeddent yn canfod unrhyw risg y gallai rhannu cyfrifoldeb wanhau'r cymorth.
- Roedd y gweithwyr proffesiynol yn wynebu dilemâu, yn benodol pan ddylai pobl ifanc, a all fod yn iau na'r oedran cydsynio cyfreithiol, fod yn cael gwybodaeth iechyd rhywiol a dulliau atal cenhedlu.
- Roedd y gweithwyr proffesiynol yn teimlo'n llai hyderus ynghylch cefnogi perthnasoedd iach a hunanbarch, nac addysgu pobl ifanc ynghylch ymarfer rhyw ddiogel.



Materion i'w hystyried

Er y cynhaliwyd y cyfweiliadau gydag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol â rolau a chyfrifoldebau gwahanol yng ngwasanaethau awdurdodau lleol, efallai na fyddant yn cynrychioli'r holl ymarferwyr ar draws y sector.

Roedd yr arolwg yn drawstoriadol (casglwyd y data ar un pwynt mewn amser), felly ni ellir tybio achosiaeth.

Ni chynhaliwyd cyfweiliadau gyda phobl ifanc â phrofiad o fod dan ofal ar gyfer yr astudiaeth hon.

Beth mae hyn yn ei olygu i'm hysgol i?

- Mae pobl ifanc â phrofiad o'r system ofal mewn perygl uwch o ymddygiadau iechyd rhywiol risg uchel, fel cael rhyw yn ifanc neu heb ddefnyddio dulliau atal cenhedlu.
- Mae gweithwyr proffesiynol system gofal y wladwriaeth yn credu eu bod nhw'n fedrus yn amlygu ac ymateb i anghenion iechyd rhywiol pobl ifanc, ond efallai eu bod nhw'n teimlo bod beth allan nhw ei gynnig yn cael ei danseilio gan adnoddau cyfyngedig a gallu proffesiynol cyfyngedig, yn ogystal ag ansicrwydd ynghylch cynorthwyo pobl ifanc sy'n iau na'r oed cydsynio.
- Efallai y gall ysgolion ategu gwaith gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol trwy addysgu pobl ifanc, gan gynnwys y rheiny mewn gofal maeth, am berthnasoedd iach a datblygu eu hunanbarch i'w galluogi nhw i ddefnyddio eu gwybodaeth am iechyd rhywiol.

Darllenwch y papur ymchwil yn llawn. Lawrlwythwch am ddim yma:

<https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0190740917310939>

Roberts L et al (2018) Sexual health outcomes for young people in state care: cross-sectional analysis of a national survey and views of social care professionals in Wales. *Children and Youth Services Review* 89: 281-288